**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Mai 2023

Annwyl Gadeirydd

**MAES AWYR CAERDYDD**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Ebrill 2023. Ysgrifennaf atoch i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac eglurhad i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich llythyr.

**Adroddiad Chwarterol**

Ymrwymodd y Maes Awyr i gyrraedd sawl targed erbyn 31 Mawrth 2023 i roi'r maes awyr ar drywydd i fod yn garbon niwtral. Fodd bynnag oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni mae'n heriol iawn i unrhyw faes awyr rhanbarthol gyflawni'r amcan hwn erbyn 2050 ar draws ei holl weithrediadau.

Fel y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, mae'r Maes Awyr wedi ymrwymo i Fferm Solar sy'n drefniant masnachol rhwng Maes Awyr Caerdydd a Cenin Renewables. Mae manylion pellach ynglŷn â'r Fferm Solar i'w gweld mewn llythyr o Faes Awyr Caerdydd at y Pwyllgor. Mae dolen ynghlwm er hwylustod:

Llythyr oddi wrth Maes Awyr Caerdydd at y Cadeirydd - 7 Medi 2022.pdf (senedd.cymru)

Mae'r Maes Awyr wedi ymrwymo i ddefnyddio tanwydd hedfan cynaliadwy (SAF) ac i gynnig hyn i gwmnïau hedfan ym Maes Awyr Caerdydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Dim ond hyn a hyn o SAF sydd ar gael ar hyn o bryd gyda'i gynhyrchiad cyfredol yn llai na 1% o'r galw byd-eang am danwydd awyrennau. Fodd bynnag, mae mwy o gyfleusterau ar y gweill, a rhagwelir y bydd yn bosibl i SAF gymryd lle 2% o danwydd confensiynol awyrennau erbyn 2025.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Croesawyd y newyddion diweddar bod LanzaTech yn bwriadu adeiladu cyfleusterau ailgylchu carbon arloesol ym Mhort Talbot i droi allyriadau diwydiannol yn SAF. Caiff y prosiect ei gefnogi gan £25 miliwn o Gronfa Tanwyddau Uwch yr Adran Drafnidiaeth. Rydym yn deall bod y Maes Awyr a Lanzatech wedi cychwyn ar drafodaethau ynglŷn â sicrhau bod y tanwydd hwn ar gael yn y Maes Awyr.

Ystyriwn SAF i fod yn ateb lleihau carbon dros dro, wrth i'r diwydiant edrych at ddatblygu awyrennau newydd sydd ddim yn cynhyrchu allyriadau, fel awyrennau sy'n cael eu pweru gan hydrogen a thrydan.

Er gwybodaeth, mae Llywodraeth y DU yn cynnal ymgynghoriad agored ar lwybr y sector hedfan i sero net: datblygu mandad tanwydd hedfan cynaliadwy y DU  http://Llwybr y sector hedfan i sero net: datblygu mandad tawnydd hedfan cynaliadwy'r DU - GOV.UK (www.gov.uk) Llwybr y sector hedfan i sero net: datblygu mandad tawnydd hedfan cynaliadwy'r DU - GOV.UK (www.gov.uk)

Rydym yn deall y bydd y Maes Awyr yn diweddaru ac yn cyhoeddi fersiwn newydd o'i llwybr amgylcheddol maes o law a fydd yn mapio ei lwybr i Sero Net.

Rwyf wedi ysgrifennu atoch ar wahân, o dan glawr cyfrinachol fasnachol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch y metrig arall.

**WGC Holdco**

Ni chynhaliwyd y broses recriwtio mor gyflym ag yr oeddem wedi gobeithio oherwydd nifer o ffactorau. Yn gyntaf, roedd angen inni benderfynu a fyddai Cadeirydd HoldCo yn Uwch Was Sifil neu'n berson allanol. At ei gilydd, daethom i'r casgliad y byddem, gan ei fod yn is-gwmni dan berchnogaeth lwyr, y byddai'r Cadeirydd yn Uwch Was Sifil, (yn amodol ar benodiad ffurfiol gan fwrdd HoldCo) ac y byddai'n atgyfnerthu arbenigedd y sector preifat drwy ddisodli dau Uwch Was Sifil gydag unigolion sydd ag arbenigedd mwy preifat / masnachol.

Yn ail, roedd gan y tîm gyfres o flaenoriaethau oedd yn cystadlu am eu hamser gwaith, gan gynnwys, fel sy'n cael ei egluro isod, y gwaith gyda'r Maes Awyr ar gynaliadwyedd. Roedd hyn yn golygu oedi cyn recriwtio cyfarwyddwyr anweithredol newydd, fodd bynnag, mae parhad y Cyfarwyddwyr wedi bod o fudd yn ystod y misoedd diwethaf.

Roedd y broses recriwtio ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol wedi mynd yn fyw ar 4 Ebrill 2023 a daeth i ben ar 2 Mai 2023:  l/8/opp/8657-Non-Executive-Directors-3-WGC-HoldCo-Ltd/en-GB" Cyfarwyddwyr Anweithredol (3) - WGC HoldCo Ltd - (tal.net). Roedd hyn yn cynnwys dod o hyd i rywun yn lle'r Cyfarwyddwr Anweithredol presennol a fydd yn gadael ar ddiwedd ei ail dymor ym mis Tachwedd 2023.

Byddwn yn awr yn sifftio ac yn cynnal cyfweliadau. Dylai'r broses hon ddod i ben erbyn inni gyfarfod â'r Pwyllgor ddiwedd mis Mehefin. Nid ydym yn rhagweld unrhyw oedi pellach ar yr amod bod digon o unigolion yn ymgeisio.

Fel y mae'r hysbyseb yn ei gwneud yn glir, rydym am recriwtio unigolion sy'n gallu rhoi cyfeiriad strategol i'r Maes Awyr, arbenigedd masnachol wrth graffu a monitro cynllun ailstrwythuro'r maes awyr, sicrwydd o ran llywodraethu a gwariant ariannol yn y Maes Awyr ac a fydd yn gallu goruchwylio perfformiad gweithredol ac ariannol y Maes Awyr.


**Adolygu**

Mae'r gwaith hwn yn parhau a byddwn mewn sefyllfa well i roi diweddariad i'r Pwyllgor pan fyddwn yn cyfarfod ym mis Mehefin. Fodd bynnag, efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno gwybod bod y Maes Awyr wedi adennill 58% o'i ffigurau teithwyr yn 2019 a hynny ar ôl i Wizz Air dynnu yn ôl, gan gofnodi 910 mil o deithwyr drwy ei derfynfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf (31 Mawrth 2023).

Mae tîm y Maes Awyr yn gweithio'n galed i ddenu busnes newydd i Faes Awyr Caerdydd. Maen nhw'n dweud bod archebion ar draws yr holl wasanaethau yn edrych yn iach ar gyfer tymor y gwanwyn a'r haf hwn, sy'n dangos arwyddion positif o adferiad. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Ryanair y byddant yn cynnig y nifer mwyaf erioed o deithiau o faes awyr Caerdydd eleni. Mae TUI yn ychwanegu 40,000 o wyliau ychwanegol o Faes Awyr Caerdydd ar gyfer 2024. Yn olaf, mae'r newyddion bod Eastern Airways, mewn cydweithrediad ag Air France, wedi lansio gwasanaeth dyddiol newydd rhwng Maes Awyr Caerdydd a Pharis Orly o 21 Ebrill ymlaen, gan gynnig cysylltiad arall i bobl sy'n byw yng Nghymru â phrifddinas fawr a chanolfan hedfan fyd-eang.

Gobeithio bod y wybodaeth ychwanegol hon o gymorth i'r Pwyllgor. Fel ag erioed, byddwn yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu eglurhad pellach ichi.

Yn gywir



**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig